**Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal**

Dyddiad: 20 Mawrth 2003

Amser: 9.15

Lleoliad: Ystafell Pwyllgor 3&4

**Teitl: Y newyddion diweddaraf am y trefniadau i roi 'Codi Pob Llais' ar waith**

**Diben**

1. Mae'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal wedi gofyn am adroddiad diwedd blwyddyn ar ba gamau pellach sydd wedi'u cymryd i roi'r cynllun gweithredu ar waith i ddatblygu argymhellion yr adroddiad Codi Pob Llais.

**Crynodeb**

2. Mae'r papur hwn yn olrhain y gwaith sydd wedi'i wneud ar bob un o argymhellion y

cynllun gweithredu sy'n deillio o'r Adroddiad 'Codi Pob Llais' a'r camau y bwriedir eu cymryd i fynd i'r afael â'r argymhellion sydd ar ôl gan gynnwys y Strategaeth Recriwtio a Lleoli.

**Amseru**

3. Yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Tachwedd, derbyniodd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal bapur yn olrhain y cynnydd ac mae'r Atodiad wedi cael ei ddiweddaru i ddangos unrhyw gynnydd pellach ers hynny.

**Y Cefndir**

4. Cyflwynwyd yr adroddiad Codi Pob Llais i'r Pwyllgor gan ei awdur, Roger McKenzie, yn ei gyfarfod ar 21 Mawrth 2001. Yn y cyfarfod hwnnw, addawodd yr Ysgrifennydd Parhaol y byddai'n cyflwyno cynllun gweithredu a chafodd grwp gweithredu, dan gadeiryddiaeth Roger McKenzie, ei sefydlu i'w lunio. Cyflwynwyd y cynllun i'r Pwyllgor er gwybodaeth ym mis Gorffennaf 2001 a chyflwynwyd y newyddion diweddaraf i'r pwyllgor ym mis Tachwedd. Cyflwynodd Roger McKenzie ei asesiad o'r cynnydd sydd wedi'i wneud ar yr adroddiad i'r Pwyllgor yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr (EOC 08-02(p2))

Atodir y cynllun gweithredu diweddaraf yn **Atodiad A** ac mae'n nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud ar bob un o'r argymhellion.

**Y Sefyllfa Bresennol**

5. O'r 43 o argymhellion yn yr adroddiad, mae **31** wedi'u cwblhau ac mae **8** ar y gweill. Mae 4 o'r argymhellion heb gael eu gweithredu eto am eu bod yn gysylltiedig ag archwiliad o'r argymhellion eraill yn y cynllun gweithredu, unwaith y byddant oll yn eu lle.

O'r 8 sydd ar y gweill, mae'r prif faes yn ymwneud â'r Strategaeth Recriwtio. Yn y cyfarfod ym mis Tachwedd, hysbyswyd Aelodau'r Pwyllgor fod diwrnod cwrdd i ffwrdd, yn gynnwys yr holl fudd-ddeiliaid mewnol allweddol (Personél, yr Uned Polisi Cydraddoldeb, Ochr yr Undebau Llafur) wedi'i drefnu ar gyfer 1 Tachwedd 2002. Cytunodd y Bwrdd Gweithredol ar bapur ar y ffordd ymlaen ym mis Rhagfyr. Mae'r polisi recriwtio bellach ar ei drydydd drafft ond mae Ochr yr Undebau Llafur yn awyddus i gyrraedd cryn gonsensws er mwyn osgoi unrhyw ragdybiaeth cyn i'r ymgynghoriad â'r staff gychwyn a chyn i'r ddogfen gael ei gwneud yn gyhoeddus. Er bod y drafftio wedi cymryd yn hirach na'r disgwyl, dylai drafft ymgynghori y mae Ochr yr Undebau Llafur a'r Uned Polisi Cydraddoldeb wedi cytuno arno fod yn barod ar gyfer yr ymgynghoriad 8 wythnos cyn diwedd mis Mawrth. Bydd hwn yn cael ei anfon ymlaen at aelodau'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal yr un pryd. Pan fydd yr ymarfer ymgynghori wedi'i gwblhau a phan fydd pawb wedi cytuno ar y strategaeth derfynol, bydd y polisi newydd, cynllun gweithredu a strategaeth gyfathrebu yn cael eu rhannu gyda'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal.

Ers y diweddariad diwethaf, mae argymhellion pellach wedi cael eu cwblhau. Mae'r newyddion allweddol yn ymwneud â phenodi Pennaeth yr Uned Polisi Cydraddoldeb; hyfforddiant cynefino ar hil a gwerthusiad o'r cynllun peilot Gradd 7. Cyflwynwyd papur penodol i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr yn amlinellu canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad interim (EOC 08-02 (p3)).

**Cydymffurfio**

6. Nid oes materion yn ymwneud â rheoleidd-dra na phriodoldeb yn deillio o'r papur hwn.

**Themâu trawsbynciol**

7. Drwy weithredu argymhellion yr adroddiad Codi Pob Llais, bydd y Cynulliad unwaith eto yn dangos ei fod wedi ymrwymo i gyfle cyfartal.

**Camau i'w cymryd**

8. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r cynnydd pellach mewn perthynas â'r cynllun gweithredu.

**Enw Cyswllt - Kim Tester**

Atodiad A - Y diweddaraf am Gynllun Gweithredu Codi Pob Llais (Matrics)